# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Cwtsh Cynnes**

**15 Caerbryn Road**
**Pen-y-groes**
**Llanelli**
**SA14 7PH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/08/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Cwtsh Cynnes

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Michelle King |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r feithrinfa hon yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus.  Maent yn cael cynnig dewisiadau da ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn sy'n effeithio arnynt.  Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn dangos mwynhad wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarperir. Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gan feithrin cydberthnasau da â'r staff gofal.  Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth priodol.

Mae'r staff gofal yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel.  Maent yn rhyngweithio’n gadarnhaol â'r plant ac yn sicrhau eu bod yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion y plant yn brydlon. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn ddigonol yn unol ag anghenion a galluoedd y plant, ac yn hyrwyddo cynnydd unigol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon weithdrefnau a mesurau da ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant sy'n mynychu'r feithrinfa. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol i oedran a cham datblygu'r plant er mwyn ysgogi eu diddordebau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon arferion da ar waith ac maent yn diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau'n rheolaidd. Maent wedi gwneud gwelliannau ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol ac yn hybu eu llesiant. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â gwiriadau recriwtio staff.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn sicrhau bod ethos gwaith iach yn y feithrinfa a bod cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar gael. Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n dda.

## Llesiant

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y feithrinfa hon ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr da. Maent yn mynegi eu hanghenion a'u teimladau yn hyderus ar lafar ac ar ffurf ddieiriau. Mae'r plant iau yn cyfleu eu hanghenion drwy fynd at aelodau o'r staff gofal am gysur pan fyddant wedi blino. Mae'r plant hŷn yn dweud wrth y staff gofal yn hyderus pan fyddant am gael diod, a phan fyddant am ddefnyddio adnoddau gwahanol yn yr ystafell chwarae. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Roedd rhai yn helpu eu hunain i adnoddau chwarae rôl caffi a siop ac eraill yn chwarae â doliau.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent yn mynd at y staff gofal yn hapus i eistedd ar eu gliniau am faldod. Caiff rheolwyr sy'n cerdded i mewn i adrannau'r feithrinfa eu cyfarch â gwên a maldod gan y plant, sy'n hyderus gyda phob aelod o'r staff. Mae gan y plant ymdeimlad da o gyflawniad ac maent yn meithrin hunan-barch o ganlyniad i'r rhyngweithio cadarnhaol â'r staff. Mae'r plant yn dathlu eu cyflawniadau drwy ddangos eu sticeri am chwarae'n dda a thacluso'n dda i'r plant eraill a'r staff gofal.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol. Mae’r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd gyda'r plant eraill a'r staff gofal. Gwnaethant rannu paneidiau o de â'r staff gofal yn ystod gweithgareddau chwarae rôl, gan ddweud ‘iechyd da’ wrthynt. Mae'r plant yn gwrando ar y staff gofal sy'n eu hatgoffa i fod yn ofalus i beidio â niweidio eraill wrth chwarae â'r teganau gwthio, ac maent yn gwrando pan fydd y staff gofal yn eu hannog i rannu adnoddau'r gegin yn ystod gweithgareddau chwarae rôl.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth, er enghraifft wrth ddefnyddio siswrn. Maent yn defnyddio rhannau rhydd i greu eu cuddfannau eu hunain ac yn ysgogi eu chwarae eu hunain gyda'r adnoddau a ddarperir. Mae'r plant yn defnyddio cyllyll a ffyrc yn hyderus o oedran ifanc ac yn gallu bwydo eu hunain.

## Gofal a Datblygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y feithrinfa hon ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r staff gofal yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol. Maent yn dilyn canllawiau, polisïau ac asesiadau risg cyfredol. Maent yn dilyn arferion glanhau a golchi dwylo, gan annog y plant a'u helpu i wneud yr un peth. Mae'r staff gofal yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau yn unol â'u polisïau. Maent yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, yn diheintio ardaloedd newid cewynnau ac yn newid PPE rhwng pob plentyn. Mae nifer digonol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ar-lein cyfredol, yn ogystal â hyfforddiant ar hylendid bwyd a diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r cyrsiau cymorth cyntaf ar-lein yn rhoi profiad ymarferol i'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau, damweiniau a meddyginiaeth, y mae'r rhieni a'r staff yn eu llofnodi. Maent yn cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes y plant. Fodd bynnag, nid yw'r rhieni'n llofnodi'r cofnodion hyn ar hyn o bryd. Mae'r staff gofal yn cynnig bwydlen amrywiol ac yn ystyried anghenion deietegol a dewisiadau unigol. Fodd bynnag, er bod ffrwyth yn cael ei gynnig ar gyfer te prynhawn, a llysiau yn cael ei gynnig yn ystod amser cinio, dydy’r fwydlen ddim yn adlewyrchu hyn. Mae plant sydd eisiau cael dŵr gyda’u bwyd yn ei dderbyn ar ôl gorffen bwyta. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn ateb cwestiynau'n hyderus mewn perthynas â sefyllfaoedd amddiffyn a diogelu plant posibl.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi ymddygiad yn llawn ac maent yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Maent yn annog y plant i fod yn ofalus i beidio â niweidio eraill wrth chwarae, ac yn eu hannog yn llwyddiannus i rannu'r teganau. Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n dda ac yn gynnes â'r plant. Maent yn cysuro'r plant iau drwy ganu a rhoi maldod iddynt. Mae'r staff gofal yn rhoi sylw llawn i ddiddordebau'r plant. Gwnaethant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl gyda'r plant ac yn helpu'r plant i wisgo eu doliau.

Mae'r staff gofal yn deall anghenion a dewisiadau'r plant yn dda. Maent yn rhyngweithio â'r plant yn ddwyieithog ac yn annog y plant i ddysgu geirfa newydd drwy enwi lliwiau, siapiau a gwrthrychau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r staff gofal yn darllen llyfrau'n frwdfrydig i'r plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau'n rheolaidd, gan gynnwys y rhai hynny sy'n annog ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac amrywiaeth. Mae'r staff gofal yn asesu datblygiad iaith y plant ac yn cefnogi eu hanghenion.

## Yr Amgylchedd

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y feithrinfa hon ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â lles a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr addas. Er enghraifft, mae system gloi ddiogel wrth y fynedfa ac mae'r ardaloedd awyr agored wedi'u hamgáu'n ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r gwasanaeth. Mae asesiadau risg ac arferion glanhau ar waith. Mae cofnodion cynnal a chadw cyfredol ar waith a chynhelir ymarferion tân a gwiriadau tân yn rheolaidd.

Mae'r feithrinfa yn groesawgar ac mae gwaith celf y plant yn cael ei arddangos a'i ddathlu ym mhob ardal. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn addas i bob oedran a cham datblygu, ac mae digon o le dan do ac yn yr awyr agored i chwarae a chymdeithasu ym mhob tywydd. Mae'r holl doiledau a chyfleusterau newid cewynnau yn hygyrch i'r plant ac yn cynnal preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn trefnu eu hadnoddau a'u teganau yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau ysgogol sy'n hygyrch i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon wedi trefnu'r feithrinfa fel bod y plant yn gallu cael gafael yn rhwydd ar adnoddau chwarae rôl, adeiladu, chwarae dychmygus a synhwyraidd. Maent wedi gwella'r amgylchedd awyr agored yn ddiweddar i ddarparu ardal chwarae pob tywydd gyda chyfarpar dringo ac ardaloedd i feithrin creadigrwydd a sgiliau corfforol a chymdeithasol y plant. Maent yn labelu'r adnoddau yn ddwyieithog. Mae llyfrau a theganau Cymraeg a Saesneg ar gael i'r plant, yn ogystal â rhai sy'n hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth.

## Arwain a Rheoli

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y feithrinfa hon ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn ymfalchïo yn y newidiadau cadarnhaol y maent wedi'u gwneud yn y feithrinfa. Maent wedi diweddaru'r datganiad o ddiben yn ystod yr arolygiad i gynnwys yr holl ofynion rheoliadol a gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol. Maent yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n rheolaidd, sydd wedi'u hintegreiddio yn y ffordd y caiff y feithrinfa ei rhedeg. Maent wedi diwygio'r rhain yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, nid yw'r polisi ar gyfer amddiffyn a diogelu plant yn cynnwys y gweithdrefnau i'w dilyn os caiff honiad ei wneud yn erbyn yr unigolion cyfrifol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r staff gofal mewn ffordd drefnus er mwyn bodloni'r cymarebau staffio. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael yr ardaloedd a'r feithrinfa yn ystod seibiannau na phan fyddant yn mynd â'r plant i'r ysgol ac yn eu casglu oddi yno.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli eu staff gofal yn dda.  Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus a'u bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr.  Maent yn teimlo bod ethos teuluol ac awyrgylch cyfeillgar yn y feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi ymgorffori sesiynau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer y staff gofal yn y broses o redeg y feithrinfa ac mae cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar gael.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ymwybodol o'r ddyletswydd atal mewn perthynas â radicaleiddio a therfysgaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant.  Yn ystod yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi hysbysu AGC am newidiadau staffio.  Mae gwiriadau recriwtio staff a thystysgrifau DBS y rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol ac ar waith. Fodd bynnag, dim ond un geirda yr oedd y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi ei gael ar gyfer dau aelod o'r staff sy'n gweithio yn y feithrinfa ar hyn o bryd, gan olygu nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Yn ystod yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi dangos geirdaon addas eraill i ni. Er nad oes angen cymryd camau unrhyw gamau gweithredu pellach ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r gwaith hunanwerthuso yn bwrpasol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn llunio cynllun gweithredol ac yn cynnal adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y gwasanaeth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cynnwys manylion am gyflawniadau'r feithrinfa ac yn pennu nodau ar gyfer y feithrinfa. Fodd bynnag, er bod y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn casglu safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff gofal, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal.

Mae'r partneriaethau'n dda.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn hysbysu'r rhieni a'r gwarcheidwaid am newidiadau i'r feithrinfa drwy'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau ar-lein eraill. Maent yn siarad â'r staff gofal am anghenion deietegol ac unigol y plant yn ddyddiol. Maent yn hysbysu'r rhieni a'r gwarcheidwaid am weithgareddau ac anghenion dyddiol drwy grŵp caeedig ar y cyfryngau cymdeithasol ac ap ar-lein. Mae'r rhieni'n teimlo bod y

rheolwyr a'r staff gofal yn mynd yr ail filltir o ran eu dyletswydd i ofalu am y plant a diwallu eu hanghenion. Mae'r rhieni'n teimlo bod newidiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud i'r feithrinfa ac mae'r staff gofal yn wych gyda'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon a'r staff gofal wedi codi arian ar gyfer achosion elusennol ac maent wrthi'n codi arian i dalu am ddiffibriliwr ar gyfer y feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau eu bod yn diwallu holl anghenion y plant.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Cadw cofnodion o'r staff sy'n llofnodi wrth gyrraedd a gadael ystafelloedd y feithrinfa yn ystod seibiannau a phan fyddant yn mynd â'r plant i'r ysgol ac yn eu casglu oddi yno.

A2. Ymgorffori'r canllawiau ‘Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant’ yn y bwydlenni dyddiol a chynnwys amseroedd byrbryd ac opsiynau iach ym mhob maes.

A3. Sicrhau bod y staff gofal yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ymarferol;

A4. Sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r cofnodion ar gyfer anafiadau sy'n bodoli eisoes.

A5. Sicrhau bod y polisi amddiffyn a diogelu plant yn cynnwys gweithdrefnau'r feithrinfa pe bai honiad yn cael ei wneud am yr unigolyn cyfrifol.

A6. Cynnwys barn y rhieni, y plant a'r staff wrth gwblhau'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/10/2021